# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canterbury House**

**Canterbury House**
**77 Dyserth Road**
**Y Rhyl**
**LL18 4DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Canterbury House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Cymru Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Medi 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu diwallu gan y staff sy'n trin y bobl gyda pharch ac urddas. Mae'r staff yn gyfarwydd â dewisiadau unigol y bobl ac yn helpu'r bobl yn eu dewis ffordd. Darperir gofal pan fydd yn ofynnol, gan fod lefelau staffio yn adlewyrchu nifer ac anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r teuluoedd yn rhan o wneud penderfyniadau ar ofal eu perthnasau a chaiff eu safbwyntiau eu cynnwys yn adolygiadau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant priodol a chefnogaeth i'w galluogi i gyflawni eu gwaith yn dda. Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Gall y bobl wneud eu hystafell yn gartrefol, er mwyn iddynt fod mor gyfforddus â phosibl yn eu hamgylchedd eu hunain. Mae trefniadau, polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch y bobl. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn y rhain, er mwyn diogelu'r bobl yn llwyr rhag risgiau yn yr amgylchedd bob amser.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu bywydau. Y rheswm dros hyn yw bod y bobl a'u teuluoedd yn rhan o greu dogfennau cynlluniau personol sy'n cofnodi'r ffordd y dylid darparu gofal a chymorth. Golyga hyn y caiff lleisiau'r bobl eu clywed. Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, sy'n hyrwyddo ymdeimlad o werth y bobl. Mae'r teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am ofal eu perthynas a gwrandewir ar eu safbwyntiau. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r teuluoedd am unrhyw newidiadau i anghenion eu perthnasau hefyd. Golyga hyn bod y teuluoedd yn teimlo'n rhan o fywydau eu perthnasau. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i roi gwybod i'r bobl, a'u teuluoedd, am y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl a sut caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae hyn yn helpu'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth p'un ai'r cartref yw'r lle cywir ar eu cyfer nhw. Mae'r unigolyn cyfrifol yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynnwys y bobl a'u teuluoedd yn y broses hon.

Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu hamddiffyn. Mae hyn am fod gofal a chymorth yn cael eu darparu gan staff sydd wedi cael eu hyfforddi, sy'n deall cyflyrau iechyd y bobl, ac yn gwybod sut i fodloni anghenion gofal y bobl. Mae'r staff yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a ddarperir, a chaiff hyn ei fonitro gan yr uwch-aelodau o'r staff er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal cywir. Mae'r teuluoedd yn canmol y gofal a ddarperir gan y staff a'r gefnogaeth a gynigir iddynt hwy fel perthnasau. Caiff trefniadau eu gwneud i'r bobl weld gweithwyr proffesiynol meddygol arbenigol, pan fo angen, ac mae'r staff yn dilyn y canllawiau a ddarperir.

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n addas. Mae'r ardal yn lân ac yn fawr, gyda dewis o ystafelloedd cymunedol i'r bobl dreulio eu hamser gydag eraill, os y dymunant. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant yn y safle. Fodd bynnag, mae diogelwch y bobl yn wynebu risg pan nad yw'r staff yn dilyn y canllawiau sydd ar waith bob amser. Mae'r darparwr yn ymwybodol bod angen gwella'r maes hwn o'r gwasanaeth ac mae'n cymryd y camau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Gofal a Chymorth

Mae’r bobl a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses o greu cynlluniau personol. Mae'r rhain yn cofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl a sut y cânt eu diwallu. Gwelsom fod anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu cofnodi yn eu cynllun personol, a chaiff y ddogfen hon ei ddiweddaru gyda gwybodaeth newydd pan fydd newidiadau'n digwydd. Caiff dewisiadau unigol y bobl ynghylch y ffordd y dymunant gael eu cefnogi, yn ogystal â'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt, eu cofnodi hefyd. Mae hyn yn helpu'r staff i ddarparu parhad o ran y gofal a ddarperir ac yn galluogi'r bobl i deimlo eu bod yn cael eu cydnabod fel person unigryw. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y staff yn adnabod anghenion aelodau o'u teulu yn dda a rhoddodd hyn gysur a thawelwch meddwl iddynt.

Mae asesiadau risg ar waith i reoli risgiau hysbys a nodwyd i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r dogfennau hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd y dylai staff leihau a monitro'r risgiau ac amddiffyn iechyd ac annibyniaeth y bobl. Caiff y cymorth mae'r bobl yn ei gael ei gofnodi gan y staff drwy ddefnyddio system electronig, ar yr adeg y darperir y gofal. Mae hyn yn helpu gyda chofnodion cywir ac hefyd yn golygu y gall uwch-aelodau o'r staff wirio'n hawdd bod y gofal sydd ei angen wedi cael ei ddarparu.

Rhannodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol am y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Ymhlith y sylwadau mae'r canlynol (mae'r staff yn) *“patient”, “caring”, “brilliant”, “approachable”, “intuitive”, “calm”, “amazing”.* Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn cael eu croesawu pan fyddant yn ymweld, y gwrandewir arnynt ac maent yn teimlo bod y staff yn deall pa mor anodd ydyw i'r teulu ar y dechrau pan fydd eu hanwylyd yn symud i gartref gofal.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd cymunedol pan fo angen. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at y gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol priodol pan fo angen cyngor neu arweiniad pellach. Golyga hyn y caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd parhaus ac i gadw mor iach â phosibl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd glân a chartrefol. Caiff ystafelloedd y bobl eu hunain eu personoli â'u heiddo yn cynnwys lluniau o'u teulu wedi'u fframio, clustogau ac ati ac ornamentau addurniadol. Darperir ardaloedd i eistedd ar hyd y coridorau hirach er mwyn i'r bobl allu gorffwys os bydd angen wrth gerdded o amgylch y cartref. Mae hyn yn caniatáu i'r bobl gael y manteision o gerdded cyn belled ag y gallant yn ddiogel. Mae darparu'r lolfeydd a'r ystafelloedd bwyta cymunedol yn golygu y gall y bobl ddewis i dreulio eu hamser yng nghwmni'r preswylwyr eraill os dymunant.

Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau yn y safle, sy'n golygu ei fod yn amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo. Nid oeddem yn gallu mynd i mewn i'r adeilad heb i'r staff wirio ein manylion adnabod yn gyntaf a chaniatáu i ni fynd i mewn. Mae'r drysau i'r ardal tu allan yn ddiogel, sy'n amddiffyn y bobl sy'n byw gyda dementia rhag gadael yr adeilad heb gymorth y staff. Gwelsom fod y gweithdrefnau cywir ar waith i roi gwybod i'r staff am y ffordd y dylent ymateb i'r risgiau iechyd a diogelwch a nodwyd yn yr amgylchedd. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r staff yn dilyn y gweithdrefnau cywir bob amser ac mae hyn yn gosod y bobl mewn risg o niwed. Trafodwyd hyn â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr a oedd eisoes yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn cymryd y camau i fynd i'r afael ag ef. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl a'u perthnasau gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir. Mae dogfen datganiad o ddiben ar gael sy'n nodi'n glir sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r broses o'i ddarparu.

Roedd y staffio'n diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae rotas y staff yn dangos y caiff nyrsys a gweithwyr gofal eu defnyddio mewn niferoedd digonol i sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth pan fydd eu hangen arnynt. Yn ystod ein hymweliad gwelsom weithwyr gofal yn ymateb i anghenion y bobl mewn modd amserol. Dywedodd y perthnasau wrthym fod yno staff ar gael bob amser pan fydd angen cymoarth ar yr aelod o'u teulu. Mae nyrs arwain clinigol yno i ddarparu arweiniad i'r staff, pan fo'i angen, yn ogystal â darparu goruchwyliaeth o'r lefel uwch o ofal sydd ei angen ar rai o'r bobl. Cyflogir cydgysylltydd gweithgareddau, staff cegin, staff cadw tŷ a staff golchi dillad hefyd, sy'n golygu y gall y gweithwyr gofal ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu gofal a threulio amser gyda'r bobl.

Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael hyfforddiant perthnasol i fod yn hyderus yn eu rolau ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i les y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol, megis cymorth cyntaf, hyfforddiant symud a chodi a chario a hyfforddiant diogelwch tân. Darperir hyfforddiant mewn cyflyrau iechyd penodol megis dementia, awtistiaeth a diabetes hefyd sy'n helpu'r staff i ddeall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi'n well.

Mae systemau ar waith gan y darparwr i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Mae adroddiadau ar gael sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis i siarad â'r staff, y preswylwyr a'u perthnasau a chael adborth am y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn adolygu'r ddogfennaeth gofal ac yn archwilio'r safle fel rhan o'i ymweliad. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau bob chwe mis, sy'n cynnwys casglu adborth gan y bobl a'u perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol eraill sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth. Mae adroddiad ar gael i ddangos canfyddiadau'r adolygiad, ac mae hwn yn cynnwys sut y caiff gwelliannau eu gwneud yn y gwasanaeth.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ac arwain y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym fod ganddynt gydberthnasau da â'r tîm rheoli. Cafodd y tîm rheoli eu disgrifio gan y bobl fel *“approachable”, “very open”* ac yn cyfathrebu'n dda.  Dywedodd y perthnasau hefyd wrthym fod y staff rheoli wedi cefnogi eu haelod o'u teulu i ymgartrefu yn y gwasanaeth pan symudon nhw i mewn gyntaf.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-aelodau o'r staff a'r staff rheoli yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 57 | Nid oedd pob aelod o'r staff wedi dilyn y gweithdrefnau diogelwch tân sydd ar waith pan oedd angen. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r camau y dylent eu cymryd os bydd tân. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/07/2023